# Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng: Trefniadau ar gyfer Rheoli'r Galw – Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2026

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Bwrdd Iechyd Addysgu Powys fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ystod eang o swyddogaethau archwilio a chysylltiedig, gan gynnwys archwilio cyfrifon cyrff y GIG yng Nghymru, ac adrodd wrth y Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y modd y mae'r sefydliadau hynny wedi defnyddio eu hadnoddau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r enw torfol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân y mae ganddynt ill dau eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel a ddisgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo ef ei hun unrhyw swyddogaethau.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2026. Ni dderbynnir unrhyw atebolrwydd gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti, lle mae'r adroddiad hwn yn y cwestiwn.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Ynglŷn â'r adroddiad hwn | 4 |
| Ffeithiau a ffigyrau allweddol | 5 |
| Negeseuon allweddol | 7 |
| Argymhellion | 8 |
| Adroddiad manwl | |
| Trefniadau cynllunio | 11 |
| Cael mynediad at wasanaethau | 14 |
| Trefniadau craffu a monitro | 25 |
| Atodiadau | |
| Atodiad 1 – dulliau archwilio | 30 |
| Atodiad 2 – meini prawf archwilio | 32 |
| Atodiad 3 – ymateb y rheolwyr i'r argymhellion archwilio | 36 |

# Adroddiad cryno

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r canfyddiadau o adolygiad yr Archwilydd Cyffredinol o'r trefniadau ar gyfer rheoli'r galw am ofal brys a gofal mewn argyfwng ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys (y Bwrdd Iechyd). Y gwaith hwn yw ail gam rhaglen o waith sy'n canolbwyntio ar nifer o elfennau o'r system gofal brys a gofal mewn argyfwng yng Nghymru. Adroddwyd ar y cam cyntaf, a archwiliodd drefniadau i gynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion ac effaith llif cleifion ar ofal brys a gofal mewn argyfwng, ar wahân.

2 Mae ein dull yn cydnabod bod y system gofal brys a gofal mewn argyfwng yn gymhleth, gyda'r angen i nifer o wahanol sefydliadau gydweithio i ddarparu gofal brys a gofal mewn argyfwng ac i sicrhau bod y system ehangach yn gweithredu'n effeithiol ac yn effeithlon. Rhaglen y Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng (Rhaglen y Chwe Nod) gan Lywodraeth Cymru, a lansiwyd yn 2021, sy'n darparu'r cyd-destun ar gyfer ein gwaith. Ar adeg ein gwaith, roedd y system gofal brys a gofal mewn argyfwng yng Nghymru'n dal i fod dan bwysau sylweddol.

3 Mae ein gwaith wedi archwilio trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer rheoli'r galw am ofal brys a gofal mewn argyfwng i leihau pwysau diangen ar y system. Fe'i gwnaed i helpu i gyflawni dyletswyddau statudol yr Archwilydd Cyffredinol dan Adran 61 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 i fod wedi'i argyhoeddi bod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau priodol i sicrhau defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o'i adnoddau.

4 Caiff y dulliau a'r meini prawf archwilio a ddefnyddiwyd gennym i wneud ein gwaith eu crynhoi yn **Atodiadau 1 a 2**.

# Ffeithiau a ffigyrau allweddol

| **Gwasanaethau Gofal Sylfaenol**[1] | |
|---|---|
| **759** | Nifer yr apwyntiadau brys ac acíwt[2] gyda meddygon teulu a oedd ar gael y dydd fesul 100,000 o’r boblogaeth meddygon teulu ym mis Rhagfyr 2025 o’i gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan o 660. Mae hyn yn ostyngiad o 28% ers mis Rhagfyr 2024. |
| **954** | Nifer y cysylltiadau â gwasanaethau y tu allan i oriau arferol meddygon teulu y mis fesul 100,000 o’r boblogaeth meddygon teulu ym mis Gorffennaf 2024 o’i gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan o 973. |
| **0** | Nifer y cysylltiadau mewn Canolfan Gofal Sylfaenol Brys (UPCC), o’i gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan o 433 fesul 100,000 o’r boblogaeth meddygon teulu ym mis Mawrth 2025. |

| **Gwasanaethau Ambiwlans** | |
|---|---|
| **152%** | Cynnydd mewn galwadau ambiwlans Categori A (coch) rhwng mis Mawrth 2019 a mis Mawrth 2025 o’i gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan o 159%. |
| **47%** | Galwadau ambiwlans Categori A (coch) yr ymatebwyd iddynt o fewn wyth munud ym mis Mawrth 2025, o’i gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan o 50% a tharged cenedlaethol o 65%. Mae hyn yn ostyngiad o 19% o’i gymharu â mis Mawrth 2019. |
| **10%** | Cleifion a drosglwyddwyd o ofal criwiau ambiwlans i ofal yr adran argyfwng o fewn 15 munud i gyrraedd ym mis Mawrth 2025, o’i gymharu â’r |

[1] Nid oes gan y Bwrdd Iechyd Ganolfannau Gofal Sylfaenol Brys gan ei fod wedi ystyried eu bod yn anymarferol oherwydd ei natur wledig.

[2] Diffinnir apwyntiadau brys ac acíwt fel apwyntiadau ar gyfer cyflyrau brys neu acíwt sydd wedi digwydd dros y tymor byr.

| | |
|---|---|
| | cyfartaledd Cymru gyfan o 14% a tharged cenedlaethol o 100%. Mae hyn yn ostyngiad o 80% o'i gymharu â mis Mawrth 2019. |

| **Gwasanaethau Ysbytai** | |
|---|---|
| **22%** | Gostyngiad yn nifer y derbyniadau i Adrannau Mân Anafiadau'r Bwrdd Iechyd rhwng mis Mawrth 2019 a mis Mawrth 2025, o'i gymharu â gostyngiad cyfartalog ar gyfer Cymru gyfan o 1%. |
| **00:41** | Yr amser cyfartalog a dreuliwyd yn Adrannau Argyfwng y Bwrdd Iechyd ym mis Mawrth 2025, o'i gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan o bum awr, 27 munud. Mae hyn yn ostyngiad o chwe munud ers mis Mawrth 2019. |

| **Cyllid** | |
|---|---|
| **£18.1 miliwn** | Arian ychwanegol a ddyrannwyd i'r Bwrdd Iechyd am y cyfnod 2022-25 ar gyfer adferiad gofal a gynlluniwyd a gofal brys a gofal mewn argyfwng y tu hwnt i gyllid craidd y Bwrdd Iechyd. |
| **£1.7 miliwn** | Arian ychwanegol yn ystod y flwyddyn a gafwyd gan y Bwrdd Iechyd yn 2023-24 a 2024-25 i roi cymorth i wireddu uchelgeisiau Rhaglen y Chwe Nod. |

# Negeseuon allweddol

## Casgliad ar y cyfan

5 Ar y cyfan, canfuom fod y Bwrdd Iechyd yn cynllunio gwasanaethau gan ddefnyddio data cynhwysfawr, ond bod angen gweithredu pellach i wella mynediad at lwybrau amgen, cryfhau ymgysylltiad â chleifion a staff ac eglurhau gofynion o ran adnoddau.

## Canfyddiadau Allweddol

### Trefniadau Cynllunio

6 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi defnyddio gwybodaeth gynhwysfawr i oleuo ei gynlluniau gofal brys a gofal mewn argyfwng. Mae cynlluniau'n tynnu ar ddata megis asesiadau o anghenion y boblogaeth a llesiant. Mae'r wybodaeth hon wedi siapio gweledigaeth strategol eglur y Bwrdd Iechyd ar gyfer dull gartref-yn-gyntaf a gwasanaethau adfer, adsefydlu ac ailalluogi wedi'u cryfhau. Mae cynlluniau'n cydnabod risgiau allweddol sy'n effeithio ar ofal brys a gofal mewn argyfwng, er y gallai'r Bwrdd Iechyd alinio'r risgiau hyn yn fwy eglur â'r ffrydiau gwaith gofal brys a gofal mewn argyfwng.

7 Er bod cynlluniau'n cyd-fynd â Rhaglen y Chwe Nod ac yn amlinellu ffrydiau gwaith megis Hyb Llif Integredig ac Unedau Mân Anafiadau estynedig, maent yn dal i fod yn rhai lefel-uchel ac nid ydynt yn disgrifio sut y bydd llwybrau newydd yn gweithredu. Ceir diffyg manylder hefyd mewn cynlluniau ynglŷn ag anghenion o ran y gweithlu a hyfforddiant yn ogystal â sut y bydd cyllid y Chwe Nod yn cael ei ddefnyddio yn ystod y flwyddyn a beth yw'r gofynion o ran cyllid yn y dyfodol.

### Cael Mynediad at Wasanaethau

8 Ceir rhai trefniadau i annog pobl i gael mynediad at ofal priodol. Er enghraifft, gwefan ddefnyddiol gan y Bwrdd Iechyd, ymgyrchoedd ar y cyfryngau cymdeithasol, a hyfforddiant i staff ar ddod o hyd i'r ffordd trwy wasanaethau gofal. Fodd bynnag, nid oes rhyw lawer o ddadansoddi i ganfod a yw'r cyfathrebu hwn yn effeithiol o ran sicrhau bod cleifion yn cael mynediad at y gwasanaethau cywir neu o ran lleihau'r galw ar wasanaethau argyfwng. Mae practisiau meddygon teulu fel rheol yn cynnig gwybodaeth gyfeirio gref, ond cyfyngedig yw'r cyfarwyddyd a ddarperir gan bractisiau deintyddol, gan gyfrannu at alw uchel ar y gwasanaeth 111 ar gyfer materion deintyddol. Nid yw ymwybyddiaeth y cyhoedd yn cael ei gwerthuso fel rhan o'r drefn arferol, ac mae effaith mentrau cyfathrebu'n aneglur.

9 Mae fferyllfeydd cymunedol yn darparu gwasanaethau estynedig ond yn wynebu cyfyngiadau o ran y gweithlu a chapasiti. Mae galw cynyddol am ofal mewn argyfwng ac ymgyflwyniadau aciwtedd-uchel yn dal i roi pwysau ar y system, er

bod Unedau Mân Anafiadau'n perfformio'n dda a bod peth gweithgarwch ataliol, megis gwaith ar gwympiadau mewn cartrefi gofal, yn dangos arwyddion cynnar o wella.

### Trefniadau craffu a monitro

10 Mae trefniadau craffu a monitro ar gyfer mentrau rheoli'r galw'n amrywiol. Mae cynlluniau'r Bwrdd Iechyd yn cynnwys mesurau a chanlyniadau allweddol y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu monitro trwy adroddiadau chwarterol ar berfformiad i'r Bwrdd a Phwyllgorau. Fodd bynnag, nid ydynt yn cynnwys manylion penodol fel rhan o'r drefn arferol i ddynodi a yw llwybrau clinigol amgen yn effeithiol. Mae gwaith i gasglu adborth uniongyrchol gan gleifion a staff ar newidiadau i wasanaethau'n anghyson hefyd. Ceir enghreifftiau lle mae craffu a monitro ar gyfer llwybr amgen wedi bod yn llwyddiannus megis y newidiadau dros dro i wasanaethau a effeithiodd ar amseroedd agor Unedau Mân Anafiadau yn hydref 2024. Ond byddai dull cryfach o lawer o fonitro effaith trefniadau o fudd i'r Bwrdd Iechyd. Dylai hyn ddangos a yw llwybrau clinigol yn cael yr effaith a ddymunir ar reoli'r galw am ofal brys a gofal mewn argyfwng.

11 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi integreiddio goruchwyliaeth ar Raglen y Chwe Nod o fewn ei brosesau llywodraethu presennol. Er bod y Bwrdd yn cael diweddariadau naratif yn erbyn y camau gweithredu i gyflawni blaenoriaethau Rhaglen y Chwe Nod, nid yw adroddiadau'n dangos yr effaith ar y galw na chapasiti. Er bod adroddiadau ariannol yn amlinellu gwariant Rhaglen y Chwe Nod, nid ydynt yn gwerthuso effeithlonrwydd nac effeithiolrwydd, ac nid yw gwersi o raglenni peilot yn cael eu hadlewyrchu mewn adroddiadau ariannol ffurfiol.

## Argymhellion

12 Mae **Arddangosyn 1** yn manylu ar yr argymhellion sy'n codi o'n gwaith. Caiff ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd i'n hargymhellion ei grynhoi yn **Atodiad 3**.

**Arddangosyn 1: argymhellion**

| **Argymhellion** |
|---|
| **Adnabod adnoddau yn y dyfodol**<br>A1 Dylai cynlluniau'r Bwrdd Iechyd adnabod lefelau gofynnol yr adnoddau a staff i wireddu ei uchelgeisiau dan Raglen y Chwe Nod. Dylai hyn gynnwys sut y bydd y Bwrdd Iechyd yn rheoli unrhyw danwariannau neu unrhyw ofynion o ran cyllid yn y dyfodol ac unrhyw ofynion o ran y gweithlu a hyfforddiant (**Arddangosyn 2**). |

**Argymhellion**

**Cynlluniau cyfathrebu**

A2 Dylai'r Bwrdd Iechyd ddatblygu cynllun cyfathrebu ffurfiol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng sy'n nodi sut y bydd y Bwrdd Iechyd yn cyfleu unrhyw newidiadau i wasanaethau a llwybrau clinigol amgen i staff a'r cyhoedd. Bydd hyn yn sicrhau bod cleifion yn cael mynediad at y gofal iawn ar yr amser iawn ac yn helpu i reoli'r galw (**Paragraff 20**).

**Cyfeirio cleifion at wasanaethau deintyddol**

A3 Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod practisiau deintyddol yn darparu gwybodaeth eglur a hygyrch am ddarpariaeth ddeintyddol frys ac mewn argyfwng ar eu gwefannau a'u llinellau ffôn (**Paragraff 25**).

**Atgyfeiriadau trwy linell uniongyrchol ar gyfer Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru**

A4 Dylai'r Bwrdd Iechyd weithio gyda meddygon teulu i sicrhau bod Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru'n gallu cael mynediad at linell uniongyrchol ar gyfer atgyfeiriadau ac ymholiadau i mewn i bractis meddyg teulu claf yn hytrach na gorfod defnyddio'r brif linell frysbennu (**Paragraff 41**).

**Adrodd ar ddata ar fynediad at wasanaethau**

A5 Dylai'r Bwrdd Iechyd gryfhau sut y mae'n tracio data ac yn adrodd ar ddata i ddangos a yw cleifion yn cael mynediad at wasanaethau mewn modd priodol. Mae hyn yn cynnwys sut y mae llwybrau clinigol amgen yn lleihau'r galw ar adrannau argyfwng (**Arddangosyn 9)**.

**Defnyddio adborth cleifion i oleuo cynlluniau**

A6 Dylai'r Bwrdd Iechyd ddangos sut y mae'n defnyddio adborth gan gleifion i oleuo a datblygu cynlluniau a gweithgarwch i reoli'r galw am wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng (**Arddangosyn 9**).

**Argymhellion**

**Adborth staff ar effaith newidiadau i wasanaethau**

A7 Dylai'r Bwrdd Iechyd gyflwyno mecanweithiau rheolaidd ar gyfer adborth staff i adnabod gwendidau neu wersi posibl mewn perthynas â darparu gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng. Dylai hyn gynnwys adborth gan bartneriaid allweddol gan gynnwys gofal sylfaenol ac Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (**Arddangosyn 9**).

**Goruchwyliaeth ar ofal brys a gofal mewn argyfwng ar lefel pwyllgorau a'r Bwrdd**

A8 Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod adroddiadau am weithgarwch dan Raglen y Chwe Nod yn ddigon manwl i ddarparu ar gyfer craffu a goruchwyliaeth ar berfformiad gofal brys gan gynnwys sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd cynlluniau a chamau gweithredu a gymerir i ateb y galw'n well (**Arddangosyn 10**).

**Goruchwyliaeth ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd buddsoddiadau mewn prosiectau**

A9 I gynyddu tryloywder a chryfhau sicrwydd bod arian a ddyrennir i ofal brys a gofal mewn argyfwng yn cael ei wario'n ddoeth, dylai'r Bwrdd Iechyd gynnwys gwybodaeth mewn adroddiadau cyllid rheolaidd i'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad i oruchwylio a yw buddsoddiadau'n darparu gwerth am arian (**Arddangosyn 10**).

# Adroddiad manwl

## Trefniadau cynllunio

13 Mae'r adran hon yn ystyried a oes gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau cadarn i reoli'r galw ar wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth bod cynlluniau:

- wedi'u goleuo gan wybodaeth berthnasol a chyfoes;
- yn adnabod ac yn ceisio ymdrin â risgiau allweddol sy'n gysylltiedig â gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng;
- yn cyd-fynd â gofynion Rhaglen y Chwe Nod, ac yn nodi'n glir sut y bydd llwybrau clinigol amgen yn gweithio; ac
- yn adnabod lefelau cyfredol a gofynnol yr adnoddau a staff i wireddu'r uchelgeisiau bwriadedig.

14 Fe wnaethom adolygu cynllun y Bwrdd Iechyd i gyflawni Rhaglen y Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi integreiddio hyn o fewn ei Gynllun Integredig (2024-2029) a'i Gynlluniau Blynyddol (2024-25 a 2025-26). Mae'r dull hwn yn wahanol i fyrddau iechyd eraill sydd â Chynllun Chwe Nod ar ei ben ei hun.

15 Canfuom fod cynlluniau'n cael eu tanategu gan ddata cryf a dealltwriaeth gref am boblogaeth Powys; fodd bynnag, nid ydynt yn nodi'n glir y gofynion o ran y gweithlu a chyllid na'r strwythurau cyflawni manwl sy'n angenrheidiol i wireddu'r uchelgeisiau bwriadedig ar gyfer gofal brys a gofal mewn argyfwng.

16 Caiff y canfyddiadau a wnaeth ein harwain at y casgliad hwn eu crynhoi yn **Arddangosyn 2**.

**Arddangosyn 2: dull o gynllunio gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng**

| Cwestiwn archwilio | Ydynt/ Nac ydynt/ Yn rhannol | Canfyddiadau |
|---|---|---|
| A yw cynlluniau wedi'u goleuo gan wybodaeth | **Ydynt** | Mae cynlluniau'r Bwrdd Iechyd yn tynnu ar asesiadau o anghenion y boblogaeth a llesiant, ochr yn ochr â mewnwelediadau o'r cam darganfod ar gyfer 'Gwell Gyda'n Gilydd'[3]. Mae'r rhain yn goleuo blaenoriaethau |

[3] Roedd rhaglen 'Gwell Gyda'n Gilydd' y Bwrdd Iechyd yn cynnwys casglu mewnwelediadau a deall heriau poblogaeth Powys i oleuo trawsnewid yn y tymor canolig a hwy.

| Cwestiwn archwilio | Ydynt/ Nac ydynt/ Yn rhannol | Canfyddiadau |
|---|---|---|
| berthnasol a chyfoes? | | trawsnewid hirdymor yn y Cynllun Integredig (2024-2029), sy’n hybu dull gartref-yn-gyntaf gyda gwasanaethau adfer, adsefydlu ac ailalluogi cryfach.<br>Mae cynlluniau’n cynnwys tybiaethau ynghylch y galw a gweithgarwch, sy’n cynnwys cynnydd a ragwelir mewn gweithgarwch argyfwng. Mae cynlluniau hefyd yn darparu taflwybrau perfformiad ar gyfer gwasanaethau darparwyr a gwasanaethau wedi’u comisiynu yn erbyn blaenoriaethau gweinidogol. |
| A yw cynlluniau’n ceisio ymdrin â risgiau allweddol sy’n gysylltiedig â gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng? | **Yn rhannol** | Mae cynlluniau’r Bwrdd Iechyd yn cydnabod y risgiau allweddol sy’n effeithio ar ofal brys a gofal mewn argyfwng, er enghraifft y ddibyniaeth ar ddarparwyr eraill i ddarparu gwasanaethau gofal mewn argyfwng. Mae gan y Cynllun Integredig (2024-29) a’r Cynllun Blynyddol 2025-26 faes cyflawni allweddol i ehangu gofal brys cymunedol i atal cludo i’r ysbyty. Mae’r galw am wasanaethau deintyddol yn risg allweddol yn y rhanbarth hefyd, ac mae’r Cynllun Blynyddol 2025-26 yn cynnwys uchelgais hirdymor i ddatblygu Cydweithrediad Deintyddol gyda rhanddeiliaid eraill ledled Powys i ymdrin â galw cynyddol.<br>Mae Cofrestr Risgiau Strategol y Bwrdd Iechyd yn amlygu risgiau trosfwaol, gan gynnwys heriau o ran gwireddu manteision trawsnewid a phwysau ar gapasiti gofal sylfaenol, ond nid yw’r Bwrdd Iechyd wedi alinio’r risgiau hyn yn eglur â’r ffrydiau gwaith penodol sydd wedi’u bwriadu i wella gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng. |
| A yw’r cynlluniau’n cyd-fynd â gofynion Rhaglen y Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng, ac yn | **Yn rhannol** | Mae cynlluniau’r Bwrdd Iechyd yn cyd-fynd i raddau helaeth â gofynion Rhaglen y Chwe Nod ond nid ydynt yn nodi’n glir sut y bydd llwybrau clinigol amgen yn gweithio. Mae’r Cynllun Integredig (2024-2029) yn amlinellu sut y bydd y Bwrdd Iechyd yn cyflawni Rhaglen y Chwe Nod dan 'Flaenoriaeth 9: Cyflawni Rhaglen y Chwe Nod'. Mae’r Cynllun Blynyddol (2025- |

| **Cwestiwn archwilio** | **Ydynt/ Nac ydynt/ Yn rhannol** | **Canfyddiadau** |
| --- | --- | --- |
| nodi'n glir sut y bydd y llwybrau clinigol amgen yn gweithio? | | 26) yn adlewyrchu hyn dan 'Flaenoriaeth Strategol 10: Cydnerthedd y System'. Mae cyfres o gynlluniau cyflawni a ffrydiau gwaith yn tanategu'r blaenoriaethau, gan gynnwys datblygiadau megis Hyb Llif Integredig i wella mynediad at glinigwyr a darpariaeth Unedau Mân Anafiadau estynedig i gefnogi gofal yn nes at adref. Fodd bynnag, mae'r cynlluniau cyflawni hyn yn rhai lefel uchel ac nid ydynt yn nodi sut y bydd y llwybrau newydd yn gweithredu'n ymarferol.<br>Mae Rhaglen y Chwe Nod wedi pennu uchelgeisiau i fyrddau iechyd sefydlu unedau Gofal mewn Argyfwng yr Un Diwrnod (SDEC) a Chanolfannau Gofal Sylfaenol Brys (UPCC) i helpu i reoli'r galw am ofal brys a gofal mewn argyfwng. Gan nad yw'r Bwrdd Iechyd yn darparu gofal llawfeddygol a meddygol acíwt, nid yw unedau SDEC yn berthnasol, ond mae canolfannau UPCC yn berthnasol. Oherwydd ei natur wledig, mae'r Bwrdd Iechyd wedi penderfynu peidio â sefydlu canolfannau UPCC. |
| A yw'r cynlluniau'n adnabod lefelau cyfredol a gofynnol yr adnoddau a staff i wireddu'r uchelgeisiau bwriadedig? | **Yn rhannol** | Mae'r Bwrdd Iechyd wedi dyrannu £835,000 yn flynyddol yn 2023-24 a 2024-25 i roi cymorth iddo gyflawni Rhaglen y Chwe Nod. Cafodd y Pwyllgor Gweithredol bapur opsiynau ar ddiwedd 2024 a oedd yn amlinellu tair lefel bosibl o ymrwymiad ariannol ar gyfer 2025-26. Mae'r papur hwn yn cynnig mewnwelediad defnyddiol i sut yr oedd y Bwrdd Iechyd yn bwriadu darparu adnoddau a staff ar gyfer ei uchelgeisiau dan Raglen y Chwe Nod. Mae £835,000 ychwanegol wedi cael ei ddyrannu ar gyfer 2025-26.<br>Fodd bynnag, nid yw gwybodaeth berthnasol wedi'i chynnwys yng Nghynllun Blynyddol y Bwrdd Iechyd 2025-26 na'r Cynllun Integredig (2024-29). Nid yw cynlluniau'n cynnwys unrhyw wybodaeth i ddynodi pa un a yw'r dyraniad yn ddigon i gyflawni ei ffrydiau gwaith, sut y bydd y Bwrdd Iechyd yn rheoli unrhyw danwariannau, nac unrhyw ofynion o ran cyllid mewn blynyddoedd yn y dyfodol. Nid oes unrhyw wybodaeth |

| Cwestiwn archwilio | Ydynt/ Nac ydynt/ Yn rhannol | Canfyddiadau |
|---|---|---|
| | | yn y cynlluniau am y gofynion o ran y gweithlu a hyfforddiant ychwaith. (**Argymhelliad 1**). |

Ffynhonnell: Archwilio Cymru

# Cael mynediad at wasanaethau

17 Mae'r adran hon yn ystyried a oes gan y Bwrdd Iechyd drefniadau cadarn i annog a galluogi pobl i gael mynediad at y gofal iawn, yn y lle iawn, ar yr amser iawn, a pha un a yw'r rhain yn gweithio. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r canlynol:

- cyfeirio cleifion yn effeithiol at y gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng sy'n diwallu eu hanghenion orau;
- bod staff yn gwybod yn iawn pa ystod o wasanaethau sydd ar gael i gleifion ac yn meddu ar wybodaeth dda am y gwasanaethau hynny, a
- newidiadau i ddarparu gwasanaethau yn arwain at welliannau mewn mynediad at wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng.

18 Canfuom fod y Bwrdd Iechyd yn cyfeirio cleifion at wasanaethau, ond bod gweithgarwch yn ddarniog a bod angen iddo ehangu mynediad at lwybrau. Er gwaethaf perfformiad cryf mewn darpariaeth fferyllfeydd cymunedol a mynediad at unedau mân anafiadau, mae perfformiad gofal brys a gofal mewn argyfwng yn dal i fod yn gryn her.

## Cyfeirio'r cyhoedd at wasanaethau

19 Canfuom fod y Bwrdd Iechyd yn darparu peth gwybodaeth ddefnyddiol, ond nad oes cynllun cyfathrebu strategol ganddo, sy'n arwain at gyfeirio anghyson a sicrwydd cyfyngedig bod negeseuon cyhoeddus yn effeithiol.

### Cynlluniau cyfathrebu

20 Nid oes gan y Bwrdd Iechyd gynllun cyfathrebu sy'n nodi sut y mae'n sicrhau ymwybyddiaeth staff a chleifion am sut a phryd i gael mynediad at wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng **(Argymhelliad 2).**

21 Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio ei gyfryngau cymdeithasol a'i wefan i ddarparu gwybodaeth am wasanaethau ledled Powys gan gynnwys sut i gael mynediad

atynt ac amseroedd agor. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn cydweithio ar lefel leol i geisio cyfeirio'r cyhoedd at wasanaethau priodol. Er enghraifft, mae Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys (PAVO) wedi'i lleoli mewn clystyrau ar draws y Bwrdd Iechyd. Mae PAVO yn ymgysylltu â'r gymuned i sicrhau bod pobl yn ymwybodol o newidiadau i wasanaethau ac yn cynnal diwrnodau ymwybyddiaeth ar gyfer cyflyrau penodol.

## Gwybodaeth gyhoeddus

22 Efallai mai eu meddyg teulu yw'r prif bwynt cyswllt i'r rhan fwyaf o gleifion ag angen brys, ac mae ein hadolygiad ni o'r data sydd ar gael yn awgrymu, rhwng mis Ebrill 2024 a mis Rhagfyr 2025, bod practisiau meddygon teulu'r Bwrdd Iechyd wedi darparu lefel uwch o apwyntiadau brys ac acíwt y dydd (875 o apwyntiadau y dydd) na chyfartaledd Cymru gyfan (732 o apwyntiadau'r dydd) fesul 100,000 o'r boblogaeth meddygon teulu. Fodd bynnag, mae'r gyfradd wedi gostwng yn gyson ers mis Rhagfyr 2024. Ar ben hynny, dim ond yn ystod y dydd y mae'r rhain ar gael, ac ar adegau o alw uchel a'r tu allan i oriau arferol, mae angen i gleifion gael eu cyfeirio at wasanaethau amgen a allai fod mewn sefyllfa well i ddiwallu eu hanghenion gofal brys.

23 Canfu ein hadolygiad ni o wefan y Bwrdd Iechyd beth gwybodaeth ddefnyddiol am wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng. Mae gan y wefan adran 'Helpwch Ni i'ch Helpu Chi' hygyrch ar yr hafan dudalen. Mae hon yn darparu dolenni i offeryn ar gyfer brechau, gwybodaeth am y cynllun anhwylderau cyffredin a pha wasanaethau gofal brys a gynigir. Mae'r Bwrdd Iechyd yn darparu ei ofal brys trwy ShropDoc[4] ac Unedau Mân Anafiadau (MIUs). Mae'r wefan yn cynnwys gwybodaeth gynhwysfawr mewn perthynas ag Unedau Mân Anafiadau, gan gynnwys yr oriau agor wedi'u diweddaru a gyflwynwyd ym mis Tachwedd 2024, rhifau cyswllt ac enghreifftiau o gyflyrau y gall yr Unedau Mân Anafiadau eu trin, yn ogystal â chynghori cleifion i ffonio yn gyntaf i sicrhau mai'r unedau yw'r lleoliad iawn ar gyfer eu hanghenion. Ceir cyngor ynghylch pryd i ffonio 999 mewn argyfwng, ac mae'r wefan hefyd yn cynnwys gwybodaeth am GIG 111, a'r gwasanaeth Iechyd Meddwl '111, Pwyso 2'.

24 Fe wnaethom hefyd ystyried gwybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd trwy bractisiau meddygon teulu a deintyddol i asesu a oedd cyfeirio eglur ar gyfer cleifion os oes ganddynt anghenion gofal brys neu ofal mewn argyfwng y tu allan i oriau arferol. Mae **Arddangosyn 3** yn nodi canlyniadau'r gwaith hwn, a adolygodd wefannau a negeseuon peiriant ateb y tu allan i oriau arferol pum practis meddygon teulu a phedwar practis deintyddol[5].

[4] Cydweithrediad gan feddygon teulu sy'n darparu gwasanaethau gofal sylfaenol brys i gleifion ledled Powys.

[5] Roedd y sampl yn cynnwys cymysgedd o bractisiau deintyddol y GIG a rhai preifat.

**Arddangosyn 3: canlyniadau'r adolygiad o wybodaeth practisiau meddygon teulu a deintyddol (Hydref 2024)**

| Dangosydd | Y Bwrdd Iechyd hwn | Sefyllfa Cymru gyfan |
|---|---|---|
| % y gwefannau gan bractisiau meddygon teulu â gwybodaeth gyfeirio eglur | 60.0 | 56.8 |
| % y negeseuon ar beiriannau ateb practisiau meddygon teulu â gwybodaeth gyfeirio eglur | 100.0 | 89.5 |
| % y gwefannau gan bractisiau deintyddol â gwybodaeth gyfeirio eglur | 50.0 | 36.7 |
| % y negeseuon ar beiriannau ateb practisiau deintyddol â gwybodaeth gyfeirio eglur | 25.0 | 86.7 |

Ffynhonnell: Archwilio Cymru

25 Mae'r holl bractisiau meddygon teulu a samplwyd gennym yn cyfeirio'n gryf at ofal brys a gofal mewn argyfwng, gyda'r holl linellau ffôn a'r rhan fwyaf o wefannau a samplwyd yn cynnig gwybodaeth eglur, gan berfformio ychydig uwchlaw sefyllfa Cymru gyfan. Mae cyfeirio trwy bractisiau deintyddol yn llawer gwannach. Dim ond hanner y gwefannau deintyddol a samplwyd oedd yn cynnig gwybodaeth eglur, ac nid oedd gan ddau bractis unrhyw wefan o gwbl. Roedd cyfeirio cyfyngedig trwy linellau ffôn practisiau deintyddol, gyda dim ond chwarter yn cynnig canllawiau eglur a rhai heb wasanaeth peiriant ateb. Er bod y Bwrdd Iechyd wedi rhoi rhywfaint o negeseuon effeithiol ar waith trwy bractisiau meddygon teulu, mae angen gwneud llawer mwy o waith i sicrhau cyfeirio eglur trwy bractisiau deintyddol, yn enwedig trwy beiriannau ateb (**Argymhelliad 3)**.

26 Ledled Cymru, mae rhwng 450,000 a 500,000 o bobl yn cyrchu'r wefan 111 bob mis. Mae gan y Bwrdd Iechyd gyfradd is o alwadau 111 fesul 100,000 o'r boblogaeth meddygon teulu, gyda galwadau 111 a wneir gan drigolion y Bwrdd Iechyd yn gyfrifol am 3% o'r holl alwadau ym mis Chwefror 2024. Caiff y pum prif reswm dros alwadau eu nodi yn **Arddangosyn 4**.

**Arddangosyn 4: y pum prif reswm dros ffonio 111 (Chwefror 2024)[6]**

| Y Bwrdd Iechyd hwn | % o'r holl alwadau | Sefyllfa Cymru gyfan | % o'r holl alwadau |
|---|---|---|---|
| Problemau deintyddol | 14.8 | Problemau deintyddol | 4.1 |
| Poen yn yr abdomen | 3.5 | Poen yn yr abdomen | 2.4 |
| Poen yn y frest | 1.9 | Poen yn y frest | 1.6 |
| Peswch | 1.6 | Peswch | 1.4 |
| Brech | 1.4 | Brech | 1.0 |

Ffynhonnell: Dangosyddion Gwasanaethau Ambiwlans

27 O bell ffordd, y rheswm mwyaf dros ffonio'r gwasanaeth 111 yn ardal y Bwrdd Iechyd yw problemau deintyddol, gyda'r ganran yn ail uchaf ledled Cymru. Felly y mae hi er gwaethaf data sy'n dangos mai'r Bwrdd Iechyd oedd â'r nifer cyfartalog uchaf o gontractau deintyddol fesul 100,000 o'r boblogaeth meddygon teulu (20.5) o'i gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan (14.7) yn ystod 2024-25. Fel a drafodwyd ym **mharagraff 25**, dangosodd ein sampl o linellau ffôn a gwefannau deintyddol fod cyfle i gryfhau'r modd y cyfeirir y cyhoedd at wasanaethau gofal deintyddol brys.

28 Er bod Powys yn dal i fod â darpariaeth contractau deintyddol gymharol uchel, fe ostyngodd nifer y contractau o 24.1 yn 2022-23 i 20.5 yn 2024-25 am bod nifer o bractisiau wedi cau. Fe wnaeth diweddariad gan Llais[7] i'r Bwrdd ym mis Mai 2025 amlygu anawsterau sylweddol i drigolion wrth geisio cael mynediad at ddeintyddion y GIG, gan beri i lawer gael mynediad at ddarpariaeth breifat neu wynebu rhestrau aros hir.

29 I gynyddu capasiti ar gyfer cleifion sydd heb gofrestru, fe gyflwynodd y Bwrdd Iechyd uned ddeintyddol symudol dros dro yn Ysbyty Bronllys ym mis Chwefror 2025, a honno'n gweithredu bum niwrnod yr wythnos. Fe hyrwyddodd y gwasanaeth hwn yn frwd trwy ei wefan a'r cyfryngau cymdeithasol. Mae'r fenter hon wedi bod yn boblogaidd gyda'r cyhoedd ac mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu i ychwanegu uned ddeintyddol symudol arall yn y Drenewydd. Nid yw'n glir a yw'r rhain wedi'u bwriadu i fod yn unedau parhaol. Er bod hyn yn helpu yn y tymor byr, mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod angen datrysiad cynaliadwy arno. Fodd

[6] Yn sgîl problemau parhaus gyda'r system 111 newydd a roddwyd ar waith ym mis Ebrill 2024, nid adroddwyd ar unrhyw ddata ar y gwasanaeth 111 ers mis Chwefror 2024.

[7] Corff statudol annibynnol a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i roi llais cryfach i bobl Cymru yn y broses o gynllunio a darparu eu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yw Llais.

bynnag, mae gan gynlluniau i ddatblygu Cydweithrediad Deintyddol fel a nodir yng Nghynllun Blynyddol 2025-26 sgôr hyder cyflawni ‘isel’ oherwydd dibyniaeth y Bwrdd Iechyd ar gamau gweithredu gan sefydliadau allanol.

### Ymwybyddiaeth cleifion

30 Nid yw’r Bwrdd Iechyd yn gwerthuso pa mor effeithiol yw ei gyfathrebu cyhoeddus ar hyn o bryd. Mae hyn yn ei gwneud hi’n anodd i’r Bwrdd Iechyd ei sicrhau ei hun bod ei negeseuon yn cyrraedd y cynulleidfaoedd iawn ac yn dylanwadu’n effeithiol ar sut y mae pobl yn dewis gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng ac yn cael mynediad atynt.

31 Mae gwasanaethau gofal sylfaenol yn cydnabod bod rheoli ymddygiad cleifion yn bwysig i’w hatal rhag cael mynediad at y gwasanaeth anghywir i’w cyflwr, er enghraifft mynd at y meddyg teulu ar gyfer y ddannodd. Un o flaenoriaethau’r clwstwr gofal sylfaenol ar gyfer 2026-27 yw prosiect cyfathrebu i ddarparu llawlyfr cleifion er mwyn iddynt ddod o hyd i’r ffordd trwy wasanaethau gofal mewn modd sy’n gweddu’n well i’w hanghenion. Mae hyn yn ddefnyddiol ond dylai fod yn rhan o ddull llawer mwy eang a strategol o gynllunio cyfathrebu.

## Ymwybyddiaeth staff a’u gallu i atgyfeirio

32 Canfuom, er bod rhai trefniadau’n cefnogi ymwybyddiaeth staff o lwybrau cymunedol, fod angen i’r Bwrdd Iechyd ehangu mynediad at wasanaethau gofal brys amgen a gwella cyfathrebu ynghylch llwybrau.

### Hybu ymwybyddiaeth staff o wasanaethau

33 Yn niffyg cynllun cyfathrebu, nid yw’n glir sut y mae’r Bwrdd Iechyd yn ymgysylltu â’i staff ynghylch cynlluniau i reoli’r galw am ofal brys a gofal mewn argyfwng.

34 Fodd bynnag, mae’n darparu hyfforddiant gorfodol ar gyfer staff newydd ar ddod o hyd i’r ffordd trwy wasanaethau gofal, yn ogystal â hyfforddiant ar gyfer staff Unedau Mân Anafiadau ar ddarpariaeth gofal brys. O ran y sefyllfa ym mis Hydref 2025, roedd y Bwrdd Iechyd yn nodi cyfraddau da o ran cydymffurfio â hyfforddiant gorfodol a statudol, sef 89% o’i gymharu â tharged o 85%.

35 Mae gan Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WAST) gyfeiriadur gwasanaethau ar gyfer ardal pob bwrdd iechyd sy’n cynnwys manylion y llwybrau atgyfeirio sydd ar gael ar gyfer gofal brys a gofal mewn argyfwng. Cyfrifoldeb y Bwrdd Iechyd yw sicrhau bod y cyfeiriadur hwn yn cael ei ddiweddaru â gwybodaeth gywir. Mae’r Bwrdd Iechyd yn cefnogi’r cyfeiriadur hwn yn effeithiol trwy ddarparu goruchwyliaeth a mewnbwn misol i sicrhau bod yr wybodaeth yn gyfoes ac yn gywir. Fodd bynnag, nododd ein hadolygiad fod y broses hon yn digwydd â llaw a’i bod yn dibynnu ar weithredu gan staff i aros gyfuwch â gwasanaethau a mentrau newydd neu esblygol.

## Atgyfeirio at wasanaethau

36 Mae gan y Bwrdd Iechyd gyfradd isel yn gyson o gleifion sy'n ffonio 999 yr ymdrinnir â hwy trwy gyngor neu gyfeirio 'ymgynghori a chau' dros y ffôn, o'i gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan (10.3% o'i gymharu â 15.1% ym mis Ebrill 2024). O'r galwadau hynny, mae'r gyfran a gyfeiriwyd at wasanaethau amgen hefyd yn is na chyfartaledd Cymru gyfan (62.9% o'i gymharu â 72.9%).

37 Mae'r gwasanaeth 111 hefyd yn cyfeirio cyfran is o gleifion at wasanaethau amgen. Mae **Arddangosyn 5** yn nodi i ba raddau y mae'r gwasanaeth 111 wedi gallu cyfeirio cleifion i ffwrdd oddi wrth adrannau argyfwng.

**Arddangosyn 5: atgyfeirio at wasanaethau eraill (Chwefror 2024)**

| Dangosydd | Y Bwrdd Iechyd hwn | Sefyllfa Cymru gyfan |
|---|---|---|
| % y galwadau 111 a atgyfeiriwyd at wasanaeth y tu allan i oriau arferol meddygon teulu | 39.9 | 41.0 |
| % y galwadau 111 a atgyfeiriwyd at broffesiwn iechyd arall | 3.5 | 2.4 |
| % y galwadau 111 a atgyfeiriwyd at wasanaethau deintyddol | 11.7 | 9.9 |

Ffynhonnell: Dangosfwrdd Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng IGDC, Dangosyddion Gwasanaethau Ambiwlans

38 Yn ystod 2023-24, roedd cyfradd atgyfeirio cleifion at wasanaeth y tu allan i oriau arferol meddygon teulu gan staff 111 yn gyson fwy neu lai â sefyllfa Cymru gyfan. Fodd bynnag, mae staff 111 yn gyson wedi bod yn atgyfeirio cyfrannau uwch o alwadau at weithwyr iechyd proffesiynol eraill a gwasanaethau deintyddol brys. Mae hyn yn cyd-fynd â'r data yn **Arddangosyn 4** ac yn dangos angen i gryfhau mynediad at lwybrau deintyddol.

39 Yn yr un cyfnod, cafodd cyfartaledd o 74 o alwadau'r mis (4.8%) eu hisraddio gan 999 a'u trosglwyddo i 111, gan ddynodi bod llai o frys gyda hwy. Fodd bynnag, o'r galwadau hyn, cafodd 32.3% eu dychwelyd o 111 yn ôl at y llinell ffôn 999 i gael eu hystyried ar gyfer anfon ambiwlans. Mae hyn yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan o 27.6%. Mae hyn yn awgrymu bod cyfle i gynyddu argaeledd llwybrau amgen ar gyfer cleifion ag anghenion brys ond lle nad yw eu bywyd yn y fantol.

40 Mae'r gyfradd wrth ystyried i ba raddau y mae criwiau ambiwlans yn gallu 'gweld a thrin' cleifion yn y fan a'r lle yn ardal y Bwrdd Iechyd yn is na chyfartaledd Cymru gyfan (11.7% o'i gymharu ag 14.3% ym mis Mawrth 2025). Mae'r gyfradd 'gweld a thrin' wedi bod yn gyson â chyfartaledd Cymru gyfan fel rheol am y 12 mis diwethaf. Hefyd, roedd canran y cleifion a atgyfeiriwyd at wasanaethau gofal amgen yn uwch na sefyllfa Cymru gyfan ym mis Chwefror 2025 (14.5% o'i gymharu ag 11.9%).

41 O’n gwaith ni, mae’n amlwg bod y Bwrdd Iechyd ac Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn ceisio cydweithio i gadw pobl gartref i’w hatal rhag cael eu cludo i’r ysbyty. Ar hyn o bryd, gall Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru atgyfeirio achosion at feddyg teulu claf ar gyfer triniaeth, ond nid oes llinell ffôn uniongyrchol iddynt wneud hyn. Golyga hyn fod rhaid i griwiau ambiwlansys ddefnyddio’r brif linell frysbennu ac aros mewn ciw fel gweddill y cyhoedd. Nid yw hyn yn gwneud atgyfeiriadau’n rhwydd nac yn gyflym, a byddai’n ddefnyddiol ac yn fwy effeithlon pe bai gan Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru linell uniongyrchol i’w defnyddio i atgyfeirio at feddygon teulu **(Argymhelliad 4)**.

42 Yn ystod 2023-24, fe wnaeth y Bwrdd Iechyd beilota’r defnydd o Uwch Ymarferwyr Parafeddygol (APP) ym mhractisiau meddygon teulu i alluogi mwy o gleifion cymhleth ac acíwt i gael eu trin yn y gymuned a lleihau’r achosion o gludo i’r ysbyty. Ariannwyd hyn gan ddefnyddio arian Rhaglen y Chwe Nod. Dywedwyd wrthym fod adborth cymysg ar y rhaglen beilot, ond fe ddaeth i ben pan na pharhawyd â’r cyllid yn 2025-26.

## Gwasanaethau i helpu i reoli’r galw

43 Canfuom fod niferoedd da’n defnyddio gwasanaethau fferyllfeydd cymunedol estynedig er mai niferoedd cyfyngedig sy’n darparu’r gwasanaethau, ond bod defnydd isel o’r cynllun anhwylderau cyffredin, ac anawsterau o ran sicrhau goruchwylwyr presgripsiynu, yn cyfyngu ar eu potensial llawn i gefnogi mynediad at ofal brys.

### Gwasanaethau fferyllfeydd cymunedol

44 Ar gyfer 2024-25, roedd gan y Bwrdd Iechyd y nifer isaf o fferyllfeydd cymunedol am bob 100,000 o’r boblogaeth meddygon teulu yng Nghymru, sef 16.2 (o’i gymharu â 20.8 ar lefel Cymru gyfan). Fe gofrestrodd pob un o fferyllfeydd cymunedol y Bwrdd Iechyd i ddarparu’r cynllun anhwylderau cyffredin yn 2024-25. Mae’r cynllun hwn yn caniatáu i fferyllwyr asesu a thrin rhestr gyffredin o fân anhwylderau[8]. Fodd bynnag, pe bai angen gwrthfiotigau, yna byddai angen i gleifion gael eu hatgyfeirio at eu meddyg teulu. Roedd nifer yr ymgyngoriadau anhwylderau cyffredin am bob 100,000 o’r boblogaeth meddygon teulu ar gyfer 2024-25 yn is nag yn unrhyw ran arall o Gymru (9,536 o’i gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan o 14,000). Yr anhwylderau mwyaf cyffredin a nodwyd oedd llid yr amrantau, clefyd y gwair a llyngyr edau.

45 I ategu’r cynllun, mae rhai fferyllfeydd cymunedol wedi cofrestru i ddarparu gwasanaethau estynedig ychwanegol hefyd, gyda chynnydd pellach yng ngallu fferyllwyr cymunedol i ymateb i fân anhwylderau. Mae hyn yn cynnwys darparu’r gwasanaeth trin a phrofi dolur gwddf, a’r gwasanaeth presgripsiynu annibynnol.

[8] Cynllun anhwylderau cyffredin, 2021.

Mae'r gwasanaethau ill dau'n galluogi'r fferyllydd cymunedol i roi gwrthfiotigau ar bresgripsiwn. Hefyd, gall fferyllwyr cymunedol ddarparu'r gwasanaethau oriau ychwanegol, sy'n caniatáu iddynt estyn eu horiau agor a darparu gwasanaeth dros wyliau banc. Caiff y canrannau sy'n darparu'r rhain eu nodi yn **Arddangosyn 6**.

**Arddangosyn 6: canrannau'r fferyllfeydd cymunedol sy'n darparu gwasanaethau estynedig (2024-25)**

| Dangosydd | Y Bwrdd Iechyd hwn | Sefyllfa Cymru gyfan |
|---|---|---|
| % y fferyllfeydd cymunedol sy'n darparu'r gwasanaeth trin a phrofi dolur gwddf | 96 | 89 |
| % y fferyllfeydd cymunedol sy'n darparu'r gwasanaeth presgripsiynu annibynnol | 35 | 39 |
| % y fferyllfeydd cymunedol sy'n darparu gwasanaethau oriau ychwanegol | 65 | 8 |

Ffynhonnell: StatsCymru

46 Mae fferyllfeydd cymunedol y Bwrdd Iechyd yn darparu lefelau uwch o wasanaethau estynedig na chyfartaledd Cymru gyfan. Mae daearyddiaeth wledig Powys yn rhoi mwy o bwyslais ar wasanaethau sy'n hygyrch yn lleol, ac mae gwasanaethau fferyllfeydd cymunedol estynedig yn cael eu defnyddio'n helaeth. Ers cyflwyno'r contract fferyllfeydd cymunedol newydd ym mis Ebrill 2022, mae bron pob fferyllfa'n darparu'r Gwasanaeth Trin a Phrofi Dolur Gwddf. Y Bwrdd Iechyd sydd â'r nifer uchaf o fferyllfeydd sy'n darparu'r gwasanaeth oriau ychwanegol, er bod y nifer wedi gostwng ers 2022-23. Mae cyfradd ddarparu'r gwasanaeth presgripsiynu annibynnol wedi cynyddu ers 2022-23, gyda chyfran y fferyllfeydd sy'n cynnig y gwasanaeth ychydig islaw sefyllfa Cymru gyfan.

47 Fe wnaeth Adroddiad ar Berfformiad Fferyllfeydd Cymunedol a gyflwynwyd ym mis Rhagfyr 2025 amlygu twf sylweddol mewn gweithgarwch, gyda 7,140 o ymgyngoriadau ar gyfer anhwylderau cyffredin wedi'u cwblhau ym mhedwar mis cyntaf 2025-26 – a oedd eisoes yn fwy na hanner cyfanswm y flwyddyn flaenorol. Mae'r Bwrdd Iechyd o'r farn bod fferyllfeydd cymunedol yn rhan allweddol o ddarparu gwasanaethau lleol ond yn dal i wynebu heriau o ran sicrhau Partneriaid Presgripsiynu Dynodedig i oruchwylio fferyllwyr sy'n cael hyfforddiant presgripsiynu annibynnol.

## Effaith newidiadau i wasanaethau ar berfformiad gofal brys a gofal mewn argyfwng

48 Canfuom fod galw cynyddol am ofal mewn argyfwng ac oedi parhaus wrth drosglwyddo cleifion yn dal i fod yn her i berfformiad gofal brys, er bod unedau mân anafiadau'n dal i berfformio'n dda.

### Perfformiad ambiwlansys

49 Ers y pandemig, mae galwadau 999 i'r gwasanaeth ambiwlans ledled y Bwrdd Iechyd wedi parhau i godi. Mae nifer y galwadau coch a geir bellach yn sylweddol uwch na'r lefel a brofwyd gan y gwasanaeth cyn y pandemig gyda chyfartaledd o 198 o alwadau y mis rhwng mis Ebrill 2024 a mis Mawrth 2025[9], o'i gymharu â chyfartaledd o 80 rhwng mis Ebrill 2018 a mis Mawrth 2019. Er eu bod yn dal i roi cyfrif am y rhan fwyaf o alwadau 999, mae nifer y galwadau ambr wedi gostwng ychydig ers y pandemig gyda chyfartaledd o 1,135 o alwadau y mis rhwng mis Ebrill 2024 a mis Mawrth 2025 (o'i gymharu â 1,146 rhwng mis Ebrill 2018 a mis Mawrth 2019).

50 Er gwaethaf y cynnydd ar y cyfan yn y galw am ambiwlansys, mae'r gyfradd o ran cludo cleifion i ysbytai gan griwiau ambiwlans wedi lleihau ers lefelau cyn y pandemig o 64.8% (Ebrill 2018 – Mawrth 2019) i 62.3% (Ebrill 2024 – Mawrth 2025). Mae'r gyfradd yn gyson â chyfartaledd Cymru gyfan (63.3%). Mae **Arddangosyn 7** yn nodi pen y daith ar gyfer yr holl deithiau cludo.

**Arddangosyn 7: pen y daith ar gyfer teithiau cludo fel cyfran o gyfanswm y teithiau cludo (Ebrill 2024 – Mawrth 2025)**

| Dangosydd | Y Bwrdd Iechyd hwn | Tuedd | Sefyllfa Cymru gyfan |
|---|---|---|---|
| % y cleifion a gludwyd i brif adrannau argyfwng | 91.4 |  | 88.8 |
| % y cleifion a gludwyd i unedau mân anafiadau | 1.9 |  | 6.2 |
| % y cleifion a gludwyd i uned arall e.e. uned iechyd meddwl neu famolaeth | 6.8 |  | 1.8 |

Ffynhonnell: Dangosyddion Gwasanaethau Ambiwlans

51 Mae criwiau ambiwlans yn cludo cyfran uwch o gleifion i brif Adrannau Argyfwng na chyfartaledd Cymru gyfan. Yn ystod 2024-25, fe wnaeth y Bwrdd Iechyd gludo

[9] O fis Gorffennaf 2025, fe newidiodd y ffordd y caiff galwadau ac ymatebion ambiwlans eu categoreiddio. O ganlyniad, mae dangosyddion gwasanaethau ambiwlans wedi newid.

canran sylweddol is o gleifion i'w unedau mân anafiadau, ond cyfraddau uwch o gleifion i unedau eraill. Clywsom fod cleifion Powys yn aml yn oedi cyn ceisio help, gan hunanreoli eu cyflyrau, neu ddefnyddio gwasanaethau aciwtedd-is am yn hwy, sy'n golygu eu bod yn tueddu i ymgyflwyno ag anghenion mwy cymhleth pan ydynt yn cysylltu â gwasanaethau argyfwng.

52 Bu peth tystiolaeth bod y Bwrdd Iechyd wedi cymryd mesurau ataliol i leihau'r effaith wrth y drws blaen. Yn 2022-23, fe wnaeth y Bwrdd Iechyd ynghyd â Chyngor Sir Powys ac Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru sicrhau peth cyllid i hyfforddi staff cartrefi gofal i fynd ati'n ddiogel i godi preswylwyr sydd wedi cwympo gan ddefnyddio clustog arbenigol. Roedd y deilliannau cychwynnol yn gadarnhaol. Rhwng mis Tachwedd 2022 a mis Ebrill 2023, roedd y data'n dangos bod 25% yn llai o ymweliadau gan Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ar gyfer cwympiadau mewn cartrefi gofal a fynychodd sesiynau ymgyfarwyddo o'i gymharu â chartrefi gofal na wnaethant eu mynychu. Dros yr un cyfnod, roedd data'n dangos cyfradd gludo a oedd 3% yn uwch ar gyfer cartrefi a fynychodd sesiynau ymgyfarwyddo (60%) o'i gymharu â chartrefi na wnaethant eu mynychu (57%). Daeth y prosiect i ben ym mis Mawrth 2023 oherwydd cyllid anghylchol. Bwriad y Bwrdd Iechyd yw dysgu gwersi o hyn wrth ddylunio ei lwybr cwympiadau.

53 Dengys data fod achosion o oedi cyn trosglwyddo o ambiwlansys ar gyfer cleifion y Bwrdd Iechyd wedi gwella dros y misoedd diwethaf ond eu bod yn dal i fod yn annerbyniol o uchel. Roedd canran gyfartalog y trosglwyddiadau o ambiwlansys a gwblhawyd o fewn 15 munud rhwng mis Rhagfyr 2024 a mis Tachwedd 2025 yn 15.2%, yn erbyn targed cenedlaethol o 100%. Roedd y perfformiad hwn yn is na sefyllfa Cymru gyfan o 21.1%. Fodd bynnag, mae hyn yn dangos gwelliant o'i gymharu â'r cyfnod blaenorol o 12 mis, lle'r oedd perfformiad yn 12.6% ar gyfer Powys yn erbyn cyfartaledd Cymru gyfan o 16.3%.

54 Fe gollodd y Bwrdd Iechyd 696 o oriau bob mis ar gyfartaledd rhwng mis Rhagfyr 2024 a mis Tachwedd 2025. Mae hyn yn cyfateb i 58 o sifftiau 12 awr lle'r oedd cleifion yn aros mewn ambiwlans y tu allan i'r ysbyty am driniaeth a pharafeddygon yn methu ag ymateb i alwadau eraill. Fe wnaeth Adroddiad Ansawdd a Pherfformiad Integredig ar gyfer y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2025 nodi gwaith parhaus gydag Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru a'r Cydbwyllgor Comisiynu i ddatblygu cynllun gwella ar gyfer Powys i wella oedi cyn trosglwyddo cleifion. Fe nododd yr adroddiad y gofynnwyd i'r holl ddarparwyr adrannau argyfwng wella llif cleifion ond cyfyngedig yw'r wybodaeth ynghylch sut y mae hyn yn edrych yn ymarferol..

55 Mae oedi cyn trosglwyddo cleifion yn rhwystr i allu staff ambiwlans i ymateb i alwadau brys eraill yn y gymuned. Mae amseroedd ymateb ambiwlansys yn dal i fod yn gryn her ac islaw targedau perfformiad, er eu bod ychydig yn well na chyfartaledd Cymru gyfan neu'n gyson ag ef (**Arddangosyn 8**).

**Arddangosyn 8: amseroedd ymateb i alwadau coch ac ambr (Ebrill 2024 – Mawrth 2025)**

| Dangosydd | Y Bwrdd Iechyd hwn | Tuedd | Sefyllfa Cymru gyfan |
|---|---|---|---|
| % y galwadau coch yr ymatebwyd iddynt o fewn wyth munud | 47.3 |  | 48.7 |
| Ymateb canolrifol i alwadau ambr (munudau) | 62 |  | 112 |

Ffynhonnell: Dangosyddion y Gwasanaeth Ambiwlans

56 Mae canran y galwadau coch yr ymatebwyd iddynt o fewn wyth munud yn sylweddol is na'r targed o 65%. Ar gyfartaledd, awr a dau funud oedd yr amser ymateb i alwadau ambr rhwng mis Mawrth 2024 a mis Chwefror 2025, gan godi i chwe awr 32 munud ar gyfer y rhai a oedd yn aros hwyaf. Roedd perfformiad wedi gwaethygu ers y cyfnod blaenorol o 12 mis.

## Perfformiad Adrannau Argyfwng/Unedau Mân Anafiadau

57 Nid oes gan y Bwrdd Iechyd adrannau argyfwng acíwt. Bydd cleifion y mae arnynt angen y lefel hon o wasanaeth yn mynd i'r safle perthnasol agosaf. Yn sgîl natur ddaearyddol Powys, gallai hyn olygu unrhyw un o fyrddau iechyd Cymru neu ddarparwyr yn Lloegr megis Ymddiriedolaeth GIG Ysbyty Amwythig a Telford neu Ymddiriedolaeth GIG Dyffryn Gwy.

58 Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithredu pedair Uned Mân Anafiadau ledled Powys. Ymarferwyr Nyrsio Argyfwng sy'n arwain yr unedau hyn a gallant drin ystod o anafiadau a phroblemau megis esgyrn wedi'u torri, clwyfau a mân losgiadau ac ysigiadau. Gwasanaethau cerdded-i-mewn yw'r Unedau Mân Anafiadau ond anogir y cyhoedd i ffonio cyn mynd yno rhag ofn y gellir eu hatgyfeirio at wasanaeth mwy addas.

59 O fewn y Bwrdd Iechyd, mae cyfradd yr ymweliadau â'i Unedau Mân Anafiadau fesul 100,000 o'r boblogaeth meddygon teulu wedi bod yn gyson uwch na sefyllfa Cymru gyfan, gyda 903 o ymweliadau y mis ar gyfartaledd rhwng mis Rhagfyr 2024 a mis Tachwedd 2025 (o'i gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan o 792). Ac eithrio amrywiadau tymhorol, mae lefelau'r ymweliadau wedi aros yn gyson ers mis Ebrill 2023. Mae perfformiad amseroedd aros mewn Unedau Mân Anafiadau wedi bod yn gyson gadarnhaol gyda pherfformiad rhwng 99% a 100% yn erbyn targed o 95% yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf.

60 Gan ymateb i heriau ariannol, ym mis Hydref 2024 fe wnaeth y Bwrdd Iechyd addasu oriau agor yn Unedau Mân Anafiadau Aberhonddu a Llandrindod i 8am tan 8pm i greu gwasanaeth mwy cynaliadwy i staff a chleifion. Adnabu adolygiad o'r newidiadau hyn ym mis Gorffennaf 2025 na fu unrhyw gynnydd mewn ymweliadau

â meddygfeydd teulu o ganlyniad i'r newid i wasanaethau, ac na fu unrhyw newidiadau sylweddol yn nifer y cleifion a ymwelodd ag Unedau Mân Anafiadau ers yr un cyfnod y flwyddyn cynt.

# Trefniadau craffu a monitro

61 Mae'r adran hon yn ystyried a yw'r Bwrdd Iechyd yn gwneud digon i fonitro perfformiad ei wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng, ac yn rhoi gwersi a ddysgwyd ar waith i wella gwasanaethau ymhellach. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r canlynol:

- trefniadau i fonitro effaith llwybrau clinigol amgen; a
- goruchwyliaeth a chraffu effeithiol ar gyflawni cynlluniau ar gyfer gofal brys a gofal mewn argyfwng.

62 Canfuom, er bod strwythurau llywodraethu yn eu lle, fod monitro ac adborth cyfyngedig yn cyfyngu ar sicrwydd ynghylch effaith gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng.

## Monitro effaith

63 Canfuom mai cyfyngedig yw'r gweithgarwch monitro ac adborth lle mae gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng yn y cwestiwn, sy'n cyfyngu ar sicrwydd pa un a yw gwasanaethau a llwybrau'n gweithio'n effeithiol.

64 Caiff y canfyddiadau sydd wedi ein harwain at y casgliad hwn eu crynhoi yn **Arddangosyn 9**.

**Arddangosyn 9: dull o fonitro effaith llwybrau amgen ar wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng**

| Cwestiwn archwilio | Ydy/ Nac ydy/ Yn rhannol | Canfyddiadau |
|---|---|---|
| A yw'r Bwrdd Iechyd yn tracio data ac yn adrodd arno i ddangos a yw cleifion yn cael mynediad at wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng mewn modd priodol? | **Yn rhannol** | Mae gan y Bwrdd Iechyd ddata cadarn ar nifer a swm y cleifion sy'n cael mynediad at wasanaethau ym Mhowys a byrddau iechyd eraill Cymru ond llai o wybodaeth i ddynodi a yw'r gwasanaethau hynny'n briodol i'w hanghenion. Mae cael mynediad at wybodaeth ar gyfer y rhai sydd wedi ymweld ag adrannau argyfwng yn Lloegr yn fwy o broblem. Mae cael a dadansoddi data gan Ymddiriedolaethau'r GIG yn Lloegr yn dasg lafurus a gyflawnir â llaw i raddau helaeth. |

| Cwestiwn archwilio | Ydy/ Nac ydy/ Yn rhannol | Canfyddiadau |
|---|---|---|
| | | Mae'r Bwrdd Iechyd yn monitro mesurau a chanlyniadau allweddol ar gyfer gofal brys a gofal mewn argyfwng ym mhob chwarter, ond nid yw'r adroddiadau hyn yn dangos a yw llwybrau clinigol amgen yn effeithiol. Yr eithriad yw Unedau Mân Anafiadau, sydd wedi bod trwy ddadansoddiad manylach yn ddiweddar.<br>Gallai fod o fudd i'r Bwrdd Iechyd gasglu data mwy manwl ar gyfer ei gleifion a defnyddio'r wybodaeth hon i ganfod a yw'r cleifion hynny'n cael mynediad at wasanaethau mewn modd priodol **(Argymhelliad 5)**. |
| A yw adborth rheolaidd gan gleifion yn cael ei geisio a'i ddefnyddio i oleuo a gwella cynlluniau? | **Nac ydy** | Nid yw'r Bwrdd Iechyd yn mynd ati fel rhan o'r drefn arferol i geisio adborth cleifion i oleuo a gwella gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng. Er y casglwyd adborth ar gyfer newidiadau penodol i wasanaethau, megis addasiadau i amseroedd agor Unedau Mân Anafiadau ym mis Hydref 2024, ac y darperir mewnwelediad ychwanegol trwy Llais, nid yw'r dull yn gyson nac yn systematig. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod y bwlch yma ac mae wedi penodi Cydlynydd Fframwaith Profiad Pobl yn ddiweddar i gryfhau sut y mae adborth cleifion yn cael ei gasglu a'i ddefnyddio. Bydd angen dangos effaith y rôl hon i ddangos sut y mae adborth yn goleuo ac yn gwella cynlluniau (**Argymhelliad 6**). |
| A yw adborth staff yn cael ei gasglu'n rheolaidd ar effaith newidiadau i wasanaethau a rhaglenni peilot i adnabod gwersi a'u rhoi ar waith? | **Yn rhannol** | Nid yw'r Bwrdd Iechyd yn mynd ati fel rhan o'r drefn arferol i geisio adborth staff i gasglu gwybodaeth am sut y mae gwasanaethau'n gweithio, gan gynnwys gofal sylfaenol. Mewn perthynas â newidiadau i amseroedd agor Unedau Mân Anafiadau, ym mis Hydref 2024 fe gynhaliodd y Bwrdd Iechyd weithdy staff i gasglu adborth. Fe gyfrannodd adborth staff at y penderfyniad i estyn y newidiadau i oriau agor. Dylai'r Bwrdd Iechyd gymhwyso'r prosesau hyn i newidiadau ehangach i wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng a chynnwys partneriaid allweddol megis gofal sylfaenol ac Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru **(Argymhelliad 7)**. |

Ffynhonnell: Archwilio Cymru

## Goruchwylio a chraffu

65 Canfuom, er bod trefniadau llywodraethu yn eu lle, mai cyfyngedig yw'r mewnwelediad y maent yn ei ddarparu ar hyn o bryd i effaith neu effeithiolrwydd buddsoddiad mewn gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng.

66 Caiff y canfyddiadau sydd wedi ein harwain at y casgliad hwn eu crynhoi yn **Arddangosyn 10**.

**Arddangosyn 10: dull o oruchwylio a chraffu ar wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng**

| Cwestiwn archwilio | Oes/ Nac oes/ Yn rhannol | Canfyddiadau |
|---|---|---|
| A oes goruchwyliaeth effeithiol ar berfformiad gofal brys a gofal mewn argyfwng yn weithrediadol, gan gynnwys craffu a sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd cynlluniau a chamau gweithredu a gymerir i ateb y galw'n well? | **Oes** | Bwrdd Rhaglen Eiddilwch a Chymunedol y Bwrdd Iechyd sy'n llywodraethu Rhaglen y Chwe Nod. Y Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol, Gofal Cymunedol ac Iechyd Meddwl sy'n cadeirio gwaith y Bwrdd Rhaglen yma.<br>Mae papurau bob deufis i'r Bwrdd Rhaglen yn darparu diweddariadau yn erbyn pob un o'r blaenoriaethau gweinidogol sy'n darparu adnoddau ar gyfer y Chwe Nod eu hunain ac yn siapio'r modd y'u cyflawnir. Mae hyn yn cynnwys cyflawniadau allweddol ar gyfer y mis, effaith, a data ar ddeilliannau os yw ar gael, statws CAG, risgiau i gyflawni a chamau lliniaru a mesurau perfformiad allweddol a thaflwybrau. Fodd bynnag, mewnol yw'r wybodaeth fanwl hon. |
| A oes goruchwyliaeth effeithiol ar berfformiad gofal brys a gofal mewn argyfwng ar lefel pwyllgorau a'r Bwrdd, gan gynnwys craffu a sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd cynlluniau a chamau gweithredu a gymerir i ateb y galw'n well? | **Yn rhannol** | Mae gofal brys a gofal mewn argyfwng yn cael eu goruchwylio fel rhan o ddiweddariadau chwarterol yr Adroddiad ar Gynnydd y Cynllun Integredig i'r Pwyllgor Gweithredol, y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad a'r Bwrdd.<br>Mae gweithgarwch gofal brys a gofal mewn argyfwng yn perthyn i thema strategol 'Gofal Cydgysylltiedig' y Bwrdd Iechyd. Ceir amrywiaeth o weithgarwch ategol yn y Cynllun Blynyddol 2025-26 sy'n cynnwys 'Gwella'r modd y darperir gwasanaethau gofal brys y Bwrdd Iechyd' gyda chanlyniadau'n cynnwys 'Cynnal adolygiad o arferion a phrosesau clinigol cyfredol i |

| Cwestiwn archwilio | Oes/ Nac oes/ Yn rhannol | Canfyddiadau |
|---|---|---|
| | | gadarnhau mewnwelediadau allweddol i oleuo trawsnewid gwasanaethau gofal brys' ac 'Adolygu a chwmpasu llwybrau clinigol allweddol i wella'r modd y darperir gofal brys a goleuo dyluniad gwasanaethau yn y dyfodol'. Nid yw'n glir sut y mae'r rhain yn wahanol na pham nad yw'r rhain eisoes wedi cael eu gwneud. Mae hefyd yn aneglur sut y gall pwyllgorau a'r Bwrdd gymryd sicrwydd bod y camau gweithredu lefel-uchel hyn yn effeithiol i ateb y galw'n well. Mae goruchwyliaeth yn gyfyngedig i'r adroddiadau hyn ac nid yw'n cynnwys unrhyw ddiweddariadau manwl penodol yn erbyn y Cynllun Chwe Nod mewnol. Er bod craffu yn y Bwrdd Iechyd yn effeithiol fel rheol, mae'n anodd i bwyllgorau a'r Bwrdd graffu'n fanwl ar wybodaeth mor lefel-uchel (**Argymhelliad 8**). |
| A oes trefniadau i fonitro a goruchwylio darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd buddsoddiad mewn prosiectau gan Lywodraeth Cymru? | **Nac oes** | Mae'r Bwrdd Iechyd yn cynhyrchu adroddiadau misol ar y prif bwyntiau sy'n benodol i Raglen y Chwe Nod a rennir yn fewnol. Mae'r rhain yn darparu mewnwelediad defnyddiol i gyflawniadau allweddol bob mis, taflwybrau perfformiad a rhai risgiau a chamau lliniaru. Fodd bynnag, nid ydynt yn cynnwys unrhyw fewnwelediad i werth am arian buddsoddiadau.<br>Ni cheir unrhyw wybodaeth yn yr Adroddiad Perfformiad Cyllid misol i'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad am gyllid gofal brys a gofal mewn argyfwng. Mae Ffurflenni Monitro Misol 2025-26 yn dangos ym Mis 10 bod y Bwrdd Iechyd wedi tanwario ar ei ddyraniad cyllid gofal brys a gofal mewn argyfwng ym mhob mis ac eithrio mis Ionawr 2026 a'i fod ar ei hôl hi o'i gymharu â'r proffil, a hynny o £141,000. Roedd y Bwrdd Iechyd yn rhagweld y byddai'n gwario gweddill y gyllideb erbyn 31 Mawrth er y byddai hyn yn golygu bod angen i wariant yn nau fis olaf y flwyddyn fod ddwywaith yn fwy na'r hyn a wariwyd yn fisol yn y 10 mis blaenorol.<br>Er y clywsom fod rhaglenni peilot yn cael eu gwerthuso a bod achos busnes yn cael ei greu ar gyfer rhai llwyddiannus, nid yw'r gweithgarwch hwn yn cael ei gynnwys yn yr adroddiadau ariannol na'r adroddiadau ar berfformiad i ddarparu goruchwyliaeth pa un a yw |

| Cwestiwn archwilio | Oes/ Nac oes/ Yn rhannol | Canfyddiadau |
|---|---|---|
| | | buddsoddiadau’n rhoi gwerth am arian (**Argymhelliad 9**). |

Ffynhonnell: Archwilio Cymru

# Atodiad 1

## Dulliau archwilio

Mae **Arddangosyn 11** yn nodi'r dulliau archwilio a ddefnyddiwyd gennym i gyflawni'r gwaith hwn. Mae ein tystiolaeth yn gyfyngedig i'r wybodaeth a dynnwyd o'r dulliau isod.

**Arddangosyn 11: dulliau archwilio**

| Elfen o'r ymagwedd archwilio | Disgrifiad |
|---|---|
| Dogfennau | Fe wnaethom adolygu ystod o ddogfennau, gan gynnwys:<br>• Cynllun Integredig a Chynlluniau Blynyddol<br>• Cynllun ac adroddiadau cynnydd Rhaglen y Chwe Nod, gan gynnwys yr hyn a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru<br>• Adroddiadau perfformiad ar ofal brys a gofal mewn argyfwng i'r Bwrdd a phwyllgorau<br>• Papurau sy'n berthnasol i fynd ati'n briodol i reoli'r galw am ofal brys a gofal mewn argyfwng |
| Cyfweliadau | Fe wnaethom gyfweld â'r canlynol:<br>• Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol<br>• Rheolwr Gweithrediadau Gwasanaeth Ambiwlans Cymru<br>• Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Gofal Sylfaenol<br>• Rheolwr Newid Clinigol (Gofal Heb Ei Drefnu)<br>• Uwch Reolwr Gofal Heb Ei Drefnu<br>• Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Grŵp Gwasanaethau Cymunedol<br>• Cyfarwyddwr Cynorthwyol Interim, Grŵp Gwasanaethau Cymunedol<br>• Pennaeth Gofal Sylfaenol<br>• Cyfarwyddwr Rhanbarthol Llais |
| Trafodaethau grŵp | Fe gynhaliom ni drafodaethau grŵp gyda'r canlynol:<br>• Arweinwyr Clystyrau Meddygon Teulu |
| Dadansoddi data | Fe wnaethom ddadansoddi data a oedd yn ymwneud â gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng, gan ddefnyddio'r ffynonellau canlynol: |

| Elfen o’r ymagwedd archwilio | Disgrifiad |
| --- | --- |
| | • Dangosyddion Gwasanaethau Ambiwlans;<br>• Dangosfwrdd Gofal Brys a Gofal Mewn Argyfwng IGDC;<br>• StatsCymru; a<br>• Data a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru a ShropDoc mewn perthynas â gwasanaethau y tu allan i oriau arferol meddygon teulu. |
| Adolygiadau o wefannau a phractisiau | Fe wnaethom adolygu gwefan y Bwrdd Iechyd a’i gyfrifon ar y cyfryngau cymdeithasol mewn perthynas â darparu gwybodaeth ar gyfer y cyhoedd am gael mynediad at wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng.<br>Fe wnaethom adolygu sampl o wefannau a pheiriannau ateb pum practis meddyg teulu a gwefannau a pheiriannau ateb pedwar practis deintyddol yn y rhanbarth. |

Mae’r holl waith archwilio wedi cael ei gyflawni yn unol â safonau archwilio Sefydliad Rhyngwladol y Sefydliadau Archwilio Goruchaf (INTOSAI).

# Atodiad 2

## Meini prawf archwilio

Mae **Arddangosyn 12** yn nodi'r meini prawf archwilio a ddefnyddiwyd gennym i gyflawni'r gwaith hwn.

**Arddangosyn 12: meini prawf archwilio**

| Cwestiynau archwilio | Meini prawf archwilio |
|---|---|
| **A oes gan yr Ymddiriedolaeth gynlluniau cadarn i reoli'r galw am wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng?** | |
| A yw cynlluniau'n ceisio gwella'r modd y rheolir y galw trwy newidiadau i ddarparu gwasanaethau yn unol â'r chwe nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal Mewn Argyfwng? | • Mae strategaethau a/neu gynlluniau sy'n ymwneud â gofal brys a gofal mewn argyfwng:<br>– yn seiliedig ar wybodaeth gyfoethog a chyfoes ac wedi'u gwreiddio ynddi, wedi'u goleuo gan ddata ar y galw am wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng (yn y gorffennol a'r dyfodol), gan gynnwys brigau mewn gweithgarwch ar adegau/diwrnodau ac mewn misoedd a demograffeg a chyflyrau cleifion penodol;<br>– yn adnabod ac yn ceisio mynd i'r afael â risgiau allweddol sy'n gysylltiedig â'r galw am wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng;<br>– yn cyd-fynd â gofynion Chwe Nod Llywodraeth Cymru ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng i reoli'r galw'n well; ac<br>– yn cynnwys gwybodaeth wedi'i dogfennu am lwybrau clinigol amgen, gan gynnwys sut a phryd y dylid ceisio mynediad atynt. |

| Cwestiynau archwilio | Meini prawf archwilio |
|---|---|
| A yw cynlluniau'n adnabod lefelau cyfredol a gofynnol yr adnoddau a staff i wireddu'r uchelgeisiau? | • Mae strategaethau a/neu gynlluniau'n nodi'r:<br>– Gofynion o ran adnoddau a chyllid a adnabuwyd i gefnogi unrhyw newidiadau i ddarparu gwasanaethau sydd wedi'u cynnwys yn y strategaeth/cynllun.<br>– Gweithlu a sgiliau sy'n ofynnol i ateb y galw, gan gynnwys ar gyfer newidiadau mewn modelau darparu megis brigau yn y gaeaf. Mae'r cynllun yn eglur ynghylch yr adnoddau sy'n ofynnol o ran sgiliau/staff clinigol ac anghlinigol. |
| **A oes trefniadau ar waith i annog a galluogi pobl i gael mynediad at y gofal iawn, yn y lle iawn, y tro cyntaf, ac a yw'r rhain yn gweithio?** | |
| A yw'r Bwrdd Iechyd yn cyfeirio'r cyhoedd yn effeithiol at wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng, fel eu bod yn gwybod sut i gael mynediad at wasanaethau mewn modd priodol? | • Mae'r Bwrdd Iechyd yn darparu gwybodaeth eglur am wasanaethau sydd ar gael a dewisiadau yn lle adrannau argyfwng ar gyfer y cyhoedd mewn amryw ffyrdd – gwefannau, trinwyr galwadau, posteri/taflenni, hysbysebion, gwefannau a llinellau ffôn meddygon teulu/deintyddion, y cyfryngau cymdeithasol, fideos a.y.b.<br>• Mae strategaethau a/neu gynlluniau ar gyfathrebu â'r cyhoedd yn cyd-fynd â gofynion nodau 2 a 3 yn Chwe Nod Llywodraeth Cymru ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng (y gofal iawn, yn y lle iawn, y tro cyntaf)<br>• Ceir tystiolaeth i awgrymu bod gan gleifion ddealltwriaeth dda am sut i geisio mynediad at wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng sy'n briodol i'w hanghenion. |
| A oes gan staff wybodaeth dda, a mynediad at wybodaeth, am yr ystod o wasanaethau eraill sydd ar gael i'w cleifion ac ar ba adegau y maent ar gael? | • Ceir ymgysylltu rhwng Byrddau Iechyd a chlystyrau meddygon teulu / deintyddion / parafeddygon / fferyllwyr am lwybrau amgen sy'n bodoli a dyfodol gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng. Mae gwybodaeth am y llwybrau a'r gwasanaethau hyn yn hygyrch i staff.<br>• Gall staff atgyfeirio cleifion yn uniongyrchol / eu hailgyfeirio at leoliadau mwy priodol i'w hanghenion, gan gynnwys Canolfannau Gofal Sylfaenol Brys (UPCC) a Chanolfannau Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod. |

| Cwestiynau archwilio | Meini prawf archwilio |
| --- | --- |
| A oes tystiolaeth bod newidiadau i'r modd y darperir gwasanaethau'n arwain at reoli'r galw'n well? | • Mae atgyfeiriadau i mewn i fodelau gwasanaeth newydd yn unol ag uchelgeisiau'r llawlyfr polisi chwe nod ar gyfer gofal brys a gofal mewn argyfwng.<br>• Gall YGAC atgyfeirio o leiaf 4% o achosion at Ganolfannau Gofal mewn Argyfwng yr Un Diwrnod.<br>• Mae galwadau i 111 yn cael eu hateb yn gyflym ac mae cyfraddau'r galwadau y rhoddir y gorau iddynt yn isel.<br>• Mae amseroedd ymateb ambiwlansys argyfwng, oedi cyn trosglwyddo o ambiwlansys ac arosiadau mewn Adrannau Argyfwng ac Unedau Mân Anafiadau yn gwella.<br>• Mae data'n dynodi bod llai o gleifion ag anhwylderau aciwtedd isel / mân anhwylderau yn ymgyflwyno mewn Adrannau Argyfwng.<br>• Mae data'n dynodi ystod dda o argaeledd apwyntiadau meddygon teulu.<br>• Mae data'n dynodi bod galwadau a gaiff eu hailgyfeirio rhwng 999 ac 111/Galw'r GIG Cymru yn briodol gyda lefelau isel o alwadau'n cael eu hailgyfeirio'n ôl a niferoedd isel o gyfraddau ailgysylltu. |
| **A yw'r Bwrdd Iechyd yn gwneud digon i fonitro perfformiad ei wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng a rhoi gwersi a ddysgwyd ar waith i wella'r gwasanaethau ymhellach?** | |
| A yw'r Bwrdd Iechyd yn monitro effeithiolrwydd llwybrau clinigol amgen, gan gynnwys trwy geisio adborth gan staff a defnyddwyr gwasanaethau? | • Mae'r Bwrdd Iechyd yn tracio data ac yn adrodd ar ddata i ddangos a yw cleifion yn ceisio mynediad at wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng mewn modd priodol.<br>• Gall y Bwrdd Iechyd ddangos tystiolaeth ei fod yn ceisio adborth cleifion yn rheolaidd a'i fod yn ei ddefnyddio i oleuo a gwella cynlluniau.<br>• Mae adborth rheolaidd yn cael ei geisio gan staff amrywiol ar effaith newidiadau i wasanaethau a chynlluniau peilot i adnabod gwersi a'u rhoi ar waith. |

| Cwestiynau archwilio | Meini prawf archwilio |
|---|---|
| A oes craffu a sicrwydd effeithiol mewn perthynas â chyflawni cynlluniau ar gyfer gofal brys a gofal mewn argyfwng a llwybrau clinigol amgen? | • Ceir goruchwyliaeth effeithiol ar berfformiad gofal brys a gofal mewn argyfwng ar lefel weithrediadol ac ar lefelau pwyllgorau a'r bwrdd. Mae hyn yn cynnwys craffu a sicrwydd ar effeithiolrwydd y cynlluniau a'r camau gweithredu i ateb y galw'n well. Goleuir gweithgarwch goruchwylio a chraffu gan feincnodi cymharol a gwersi o gyrff eraill lle y bo'n briodol.<br>• Ceir trefniadau i fonitro a goruchwylio darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd buddsoddi mewn prosiectau gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys canfod gwerth am arian a pha wahaniaeth y mae'r prosiect wedi'i wneud. |

# Atodiad 3

## Ymateb y rheolwyr i'r argymhellion archwilio

Mae **Arddangosyn 13** yn nodi ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd i'r argymhellion a wnaed oherwydd yr archwiliad hwn. Bydd yr ymateb a gwblhawyd gan y rheolwyr yn cael ei fewnosod unwaith y bydd wedi cael ei ystyried gan Bwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd y Bwrdd Iechyd

**Arddangosyn 13: ymateb y rheolwyr**

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| **Adnabod adnoddau yn y dyfodol**<br>**A1** Dylai cynlluniau'r Bwrdd Iechyd adnabod lefelau gofynnol yr adnoddau a staff i wireddu ei uchelgeisiau dan Raglen y Chwe Nod. Dylai hyn gynnwys sut y bydd y Bwrdd Iechyd yn rheoli unrhyw danwariannau neu unrhyw ofynion o ran cyllid yn y dyfodol ac unrhyw ofynion o ran y gweithlu a hyfforddiant (**Arddangosyn 2**). | **Wedi'i Dderbyn**<br>Mae gan y Bwrdd Iechyd gynllun eglur ar gyfer y chwe nod, gan gynnwys darparu adnoddau, er gwaethaf y gofyniad parhaus i gyflawni hwn dan fodel cyllid anghylchol. Gyda newid i gyllid cylchol posibl, bydd hi'n bosibl dangos model staffio cydnerth tymor hwy sy'n cyflawni'r amcanion cynllunio yn well. | Medi 2026 | Rheolwr Newid Clinigol,<br>Chwe Nod |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| **Cynlluniau cyfathrebu**<br>A2 Dylai'r Bwrdd Iechyd ddatblygu cynllun cyfathrebu ffurfiol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng sy'n nodi sut y bydd y Bwrdd Iechyd yn cyfleu unrhyw newidiadau i wasanaethau a llwybrau clinigol amgen i staff a'r cyhoedd. Bydd hyn yn sicrhau bod cleifion yn cael mynediad at y gofal iawn ar yr amser iawn ac yn helpu i reoli'r galw (**Paragraff 20**). | **Wedi'i Dderbyn a'i Gwblhau**<br>Ceir cyfathrebiadau cyhoeddus i ategu mynediad cleifion, a gaiff eu diweddaru'n lleol i adlewyrchu newidiadau i wasanaethau:<br>(Helpwch Ni i'ch Helpu Chi – Bwrdd Iechyd Addysgu Powys)<br>Ochr yn ochr â hyn, mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu'r rhaglen Gwell Gyda'n Gilydd i siapio dyfodol gwasanaethau cymunedol iechyd corfforol ac iechyd meddwl oedolion, gan gynnwys gofal brys. Fe ymgysylltwyd ynghylch yr achos dros newid a modelau gwasanaeth ar gyfer y dyfodol, gydag adborth yn cael ei gasglu mewn adroddiad ymgysylltu. Mae'r mewnwelediad hwn yn goleuo datblygiad opsiynau ac argymhellion, a disgwylir ymgynghori ffurfiol yn hwyrach yn 2026. | Ebrill 2026 | Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyfathrebu, Ymgysylltu a Llywodraethu Corfforaethol |
| **Cyfeirio cleifion at wasanaethau deintyddol**<br>A3 Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod practisiau deintyddol yn darparu gwybodaeth eglur a hygyrch am ddarpariaeth ddeintyddol frys ac mewn argyfwng ar eu gwefannau a'u llinellau ffôn (**Paragraff 25**). | **Wedi'i Dderbyn**<br>Nid yw negeseuon eglur ynglŷn â sut i gael mynediad at ofal deintyddol brys a gofal deintyddol mewn argyfwng yn gyson ar draws practisiau deintyddol. Mae cynlluniau gweithredu yn eu lle i ddiweddaru llinellau ffôn a gwefannau (lle y bo'n berthnasol). Bydd sylw'n cael ei roi i ddiffyg cydymffurfio mewn cyfarfodydd adolygu ar ddiwedd y flwyddyn. | Mehefin 2026 | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gofal Sylfaenol |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
| --- | --- | --- | --- |
| **Atgyfeiriadau trwy linell uniongyrchol ar gyfer Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru**<br>A4 Dylai'r Bwrdd Iechyd weithio gyda meddygon teulu i sicrhau bod Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru'n gallu cael mynediad at linell uniongyrchol ar gyfer atgyfeiriadau ac ymholiadau i mewn i bractis meddyg teulu claf yn hytrach na gorfod defnyddio'r brif linell frysbennu (**Paragraff 41**). | **Wedi'i Dderbyn yn Rhannol**<br>Rhoddir anogaeth gref yn gyson i'r Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol ddarparu llinell uniongyrchol ar gyfer gweithwyr proffesiynol gan gynnwys ymholiadau Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru. Bydd y Bwrdd Iechyd yn ailystyried hyn gyda phractisiau unigol i adnabod unrhyw rwystrau, gan nodi nad yw gwneud hynny'n rhwymedigaeth gytundebol. | Mehefin 2026 | Pennaeth Gofal Sylfaenol |
| **Adrodd ar ddata ar fynediad at wasanaethau**<br>A5 Dylai'r Bwrdd Iechyd gryfhau sut y mae'n tracio data ac yn adrodd ar ddata i ddangos a yw cleifion yn cael mynediad at wasanaethau mewn modd priodol. Mae hyn yn cynnwys sut y mae llwybrau clinigol amgen yn lleihau'r galw ar adrannau argyfwng (**Arddangosyn 9**). | **Wedi'i Dderbyn**<br>Yn ychwanegol at ddangosyddion perfformiad allweddol a metrigau adroddadwy mewnol presennol, mae'r Bwrdd Iechyd yn datblygu dangosfwrdd manylach i dracio effeithiau gwasanaethau a ddatblygir o'r newydd sy'n ceisio rhoi cymorth i ryddhau'n gynharach o'r ysbyty ac osgoi derbyn i'r ysbyty. | Mehefin 2026 | Arweinydd Data a Gwybodaeth Fusnes |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
| --- | --- | --- | --- |
| **Defnyddio adborth cleifion i oleuo cynlluniau**<br>A6 Dylai'r Bwrdd Iechyd ddangos sut y mae'n defnyddio adborth gan gleifion i oleuo a datblygu cynlluniau a gweithgarwch i reoli'r galw am wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng (**Arddangosyn 9**). | **Wedi'i Dderbyn**<br>Mae BIAP yn parhau i wreiddio Fframwaith Profiad Pobl GIG Cymru yn ein gweithgarwch dysgu a gwella. Cynhaliwyd hunanasesiad yn erbyn y Fframwaith Profiad Pobl mewn Gwasanaethau Gofal Heb Ei Drefnu ac mae hwn wedi goleuo ein cynllun ar gyfer cryfhau adborth cleifion fel rhan ganolog o wella gwasanaethau o fewn y gwasanaethau hyn. Doir â themâu allweddol ynghyd mewn Adroddiadau Pedwar Cwadrant chwarterol. | Ebrill 2026 | Uwch Reolwr, Gofal Heb Ei Drefnu |
| **Adborth staff ar effaith newidiadau i wasanaethau**<br>A7 Dylai'r Bwrdd Iechyd gyflwyno mecanweithiau rheolaidd ar gyfer adborth staff i adnabod gwendidau neu wersi posibl mewn perthynas â darparu gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng. Dylai hyn gynnwys adborth gan bartneriaid allweddol gan gynnwys gofal sylfaenol ac Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (**Arddangosyn 9**). | **Wedi'i Dderbyn**<br>Yn ogystal â'r camau gweithredu yn A6. Mae'r sefydliad yn gwneud gwaith cynllunio sylweddol ar gyfer trawsnewid ar draws llwybrau gofal brys, a thrwy ymgysylltu mae wedi cael adborth gweithredol ar lwybrau presennol gan dimau lleol a phartneriaid system. Bydd datblygiad parhaus yn sicrhau bod newidiadau yn y dyfodol yn parhau i ddarparu mecanweithiau adborth i fynd ati'n weithredol i dracio effeithiau ac ysgogi cyfleoedd ar gyfer newid pellach. | Rhagfyr 2026 | Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Grŵp Gwasanaethau Cymunedol |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
| --- | --- | --- | --- |
| **Goruchwyliaeth ar ofal brys a gofal mewn argyfwng ar lefel pwyllgorau a'r Bwrdd**<br>A8 Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod adroddiadau am weithgarwch dan Raglen y Chwe Nod yn ddigon manwl i ddarparu ar gyfer craffu a goruchwyliaeth ar berfformiad gofal brys gan gynnwys sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd cynlluniau a chamau gweithredu a gymerir i ateb y galw'n well (**Arddangosyn 10**). | **Wedi'i Dderbyn yn Rhannol**<br>Mae adroddiadau parhaus i'r bwrdd rhaglen yn parhau, gyda chymeradwyaeth Weithredol a, lle y bo'n ofynnol, diweddariad pellach i'r pwyllgor Gweithredol. Mae hyn ar gael i'w fabwysiadu gan y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad a'r Bwrdd os yw'n ofynnol. | Ebrill 2026 | Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Grŵp Gwasanaethau Cymunedol |
| **Goruchwyliaeth ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd buddsoddiadau mewn prosiectau**<br>A9 I gynyddu tryloywder a chryfhau sicrwydd bod arian a ddyrennir i ofal brys a gofal mewn argyfwng yn cael ei wario'n ddoeth, dylai'r Bwrdd Iechyd gynnwys gwybodaeth mewn adroddiadau cyllid rheolaidd i'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad i oruchwylio a yw buddsoddiadau'n darparu gwerth am arian (**Arddangosyn 10**). | **Wedi'i Dderbyn**<br>I archwilio sut y gall adroddiadau presennol i'r Bwrdd Rhaglen (gan gynnwys cyflawni ariannol) gael eu defnyddio'n well i oleuo'r adroddiadau trwy'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad. | Medi 2026 | Rheolwr Newid Clinigol, Chwe Nod |

Ffynhonnell: Archwilio Cymru

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.